



Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso mawr i'r cwrs hwn. Rydym yn edrych ymlaen yn frwdfrydig i gael dechrau ar y daith greadigol hon gyda chi. Mae'r cwrs Celf, Crefft a Dylunio yn eich galluogi i ddatblygu diddordebau a galluoedd personol ar draws cwrs astudio arbennig o eang. Mae cyfle i archwilio meysydd ymarferol a chyd-destunol o'ch dewis o fyd celf, crefft a dylunio drwy amrediad o gyfryngau a phrosesau dau a/neu dri dimensiwn. Gall celf, crefft a dylunio gynnwys y defnydd o amrywiaeth ddiddiwedd bron o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, ond dylid rhoi sylw dyledus i sicrhau dyfnder priodol yn ogystal ag ehangder y profiadau dysgu.

Bydd cyfle i archwilio meysydd sy'n gorgyffwrdd a/neu gyfuniadau o ddisgyblaethau o'r meysydd isod:

Celfyddyd Gain, Dylunio Tecstilau, Graffeg, Dylunio Tri Dimensiwn a Ffotograffiaeth

https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/celf-a-dylunio-ug-safon-uwch/#tab_overview

Gwaith Cychwynnol

Mae'n hanfodol fod y sgil o luniadu yn rhan annatod o'r holl unedau. Gellir dadlau bod lluniadu'n unigryw gan ei fod yn cynyddu eich gallu i weld ac i ddeall y byd gweledol a chyffyrddol. Mae'n eich galluogi i feddwl yn weledol ac yna i gyfleu'r meddylia hyn i eraill. Defnyddiwch y dolenni canlynol er mwyn dyfnhau eich meddwl. Cynhyrchwch nodiadau a fydd yn eich galluogi i greu map meddwl dadansoddol a thrylwyr ar y testun 'Pam fod Lluniadu yn bwysig?' Yn ogystal cofiwch ddarlunio enghreifftiau ar eich map meddwl fel arlunydd. Gallwch edrych am ysbrydoliaeth ar y we.

The Campaign for Drawing, Why is Drawing Important?

<https://www.youtube.com/watch?v=NEIiUs7eg7c>

Secrets of Drawing - The Importance of Drawing

https://www.youtube.com/watch?v=_VpmCxaYC7A

21 of My Favorite Inspirational Drawing Quotes

<https://drawpaintacademy.com/inspirational-drawing-quotes/>

Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

<https://www.vangoghmuseum.nl/en?v=1>

<https://www.nationalgeographic.com/news/2017/11/leonardo-da-vinci-genius-walter-isaacson/>

<https://architizer.com/blog/practice/tools/how-architecture-is-born-frank-gehry/>

<https://www.royalacademy.org.uk/article/picasso-and-paper-virtual-exhibition-tour>

Gosod gwaith ymchwil

Ymchwiliwch i waith braslunio/drawing y canlynol ac ewch ati i ddadansoddi un enghraifft gan pob arlunydd/dylunydd. Gweler enghreifftiau ond does dim rhaid i chi ddefnyddio rhain. Dewisiwch rhai eich hunain!

Atodiad 1. Defnyddiwch y templed er mwyn greu nodiadau (nid oes angen ail-ddrafftio. Eich nodiadau chi yw'r rhain).

Atodiad 2. Gwerthuso Gwaith Artist/Dylunydd.

Leonardo da Vinci – Anatomy Drawings

Van Gogh – Portrait of Joseph Roulin, 1888

Frank Gehry – Disney Concert Hall drawing

Picasso – Portrait of Dora Maar

Yn dilyn eich ymchwiliad atebwch y cwestiynnau hyn. Pam nad ewch ati i gynnal trafodaeth ar lein gyda disgybl arall.

- A yw arddull pob arlunydd yr un fath neu'n gwbl wahanol? Sut? Pam?
- Oedd gan y brasluniau swyddogaeth arbennig?
- A gymerodd pob braslun y un amser i'w cyflawni?
- Cymharwch y sgiliau a ddefnyddiodd pob un?
- Sut offer a deunyddiau fuasai ei angen i chi ei ddefnyddio i efelychu/copio'r gwaith?

I ddilyn dewisiwch dri gwrthrych i greu gosodiad bywyd llonydd eich hunain. Dylai pob gwrthrych fod yn wahanol maint/graddfa (bach, canolig a mawr) Brasluniwch 4 gosodiad (still life) gwahanol drwy ddefnyddio arddull y pedwar arlunydd uchod. Dylai'r arsylwadau adlewyrchu eich gwerthfawrogiad a'ch deallusrwydd chi ohonynt. COFIWCH mae'n bwysig fod eich gwaith yn efelychu nodweddion brasluniau yr artistiaid/dylunwyr ee. maint, cyfrwng, techneg...

Yn olaf cyfansoddwch fraslun sy'n cyfuno yr arddulliau rydych wedi ei ddysgu amdanynt a'u gilydd. Y tro hyn mae'n bosib i chi ddewis braslunio thema gwahanol fel tirlun/bywyd llonydd/

Gwaith Ail-ymgyfarwyddo efo sgiliau/gwybodaeth TGAU

<http://www.bocsgolau.co.uk/adnoddau/arddangosfa-portffolio/>

<https://www.tate.org.uk/visit/tate-modern>

<https://www.art.mmu.ac.uk/degreeshow/>

<http://www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/dysg/sgyrsiau-digwyddiadau-a-gweithdai/>

How to Look at Art. Susie Hodge. Tate Publishing.

ISBN 978-184976-223-6

Mae'r Pecynnau Adnoddau Beth yw Crefft? Deunydd, Pwrpas, Addurn a Proses yn llawn o dasgau a gwybodaeth ac ar gael i'w brynu o Ganolfan Grefft Rhuthun.

32 tudalen, Lliw llawn, 210x297mm, Iaith: Saesneg neu Gymraeg £3.00

I archebu ffoniwch: 01824 704774. E:thegallery@rccentre.org.uk

Rhaglen Codi'r Bar

Agor drysau ar brofiadau newydd mewn celfyddyd gymhwysol, crefft a dylunio. Rhaglen ydi Codi'r Bar a sefydlwyd gan Ganolfan Grefft Rhuthun ar gyfer myfyrwyr UG a lefel A sy'n fwy abl a thalentog. Mae'r cynllun yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i'r rheiny sy'n dangos rhagoriaeth artistig i allu cael mynediad at ymarfer artistig lefel uchel; hyrwyddo ymgysylltiad ag ymarferwyr cyfoes a mynediad at dechnegau arbenigol sy'n ychwanegol at y rheiny sydd ar gael mewn ysgolion.

<https://rtb1920rcc.blogspot.com>

